Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: APICOOP tudalen 1 o 2

Apicoop, Chile, Mêl a Llus Sych

Apicoop

Cymdeithas gydweithredol cadw gwenyn yw Apicoop (ynganiad – Apî-co-op) yn Paillaco, tref yn nhalaith Valdiva yn Chile, tua 850 cilometr i'r de o Santiago. Mae ffermwyr gwenyn Apicoop yn gweithio ar dros 800 cilometr. Cafodd Apicoop ei sefydlu fel prosiect cadw gwenyn gan yr eglwys yn Esgobaeth Valdiva, sy'n hybu datblygu gwledig. Roedd y ffaith fod yr eglwys yn cefnogi'r gymdeithas yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod yr unbennaeth filwrol pan oedd grwpiau ffermwyr ac undebau llafur yn cael eu herlid. Yn aml, dim ond gyda chydweithrediad yr eglwys y gallai'r rhain ddal ati.

Daeth Apicoop yn gwmni cydweithredol annibynnol ym 1997 a phrynodd waith prosesu mel. Daeth mwy a mwy yn aelodau o'r gymdeithas a daeth yn hunan gynhaliol.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: APICOOP

Apicoop, Chile, Mêl a Llus Sych

Ar hyn o bryd mae tua 350 o ffermwyr gwenyn yn rhan o Apicoop. Mae'r rhan fwyaf yn rhai bychan gyda 15 – 20 o gychod ac eraill yn rhai canolig gyda 100 – 200 o gychod. Mae gan rhai unigolion fwy na 300 o gychod. Ar ben hynny, mae gan Apicoop iard â 500 o gychod. I lawer o aelodau Apicoop, mêl yw eu hunig ffynhonnell o arian parod.

Heb gefnogaeth Apicoop, sy'n prynu ac yn gwerthu eu mêl, byddai sawl teulu yn ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae Apicoop wedi defnyddio premiwm Marchnad Deg i fuddsoddi mewn cyfarpar i wella effeithiolrwydd ac i sicrhau ei fod yn cadw at safonau allforio rhyngwladol. Mae hefyd wedi talu am hyfforddiant ac am gyflenwadau i ffermwyr.

Gall hyd at 70% o incwm teuluoedd ddod o'r gwenyn ond mae dibynnu ar un cynnyrch yn unig yn gallu bod yn beryglus. Dyna pam y penderfynodd Apicoop arallgyfeirio yn 2006 drwy dyfu ac allforio llus. Roedd Traidcraft yn cefnogi'r prosiect drwy roi grant i brynu'r llwyni llus a chytuno i brynu'r cynnyrch ar gyfer ei "Blueberry Geobar" newydd (Mixed Berry Geobar erbyn hyn). Mae'r llus yn cael eu tyfu ar tua 21 hectar o dir. Apicoop yw'r unig ffynhonnell yn y byd o lus sych wedi'u trwytho mewn mêl ac sy'n cael eu hallforio. Disgwylir y bydd Traidcraft yn prynu 10 tunnell o lus sych yn 2010 (y cynhaeaf cyntaf). Mae angen 4.5 cilogram o lus ffres i wneud un cilogram o lus sych.

"Rwy'n gobeithio o waelod calon y gallwn ni greu'r un ysbryd o fasnach deg yn y caeau llus"

Chino Henriques, Apicoop, Chile